

*Patrwm cyflwyno*      *O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth ymarferol, gyfreithiol a moesegol i fyfyrwyr o sut i ymholi, rheoli ac archwilio casgliadau data a chael mynediad atynt, gan ddefnyddio cronfeydd data perthynol traddodiadol a dulliau NoSQL cyfoes. Gan ddefnyddio setiau data go iawn, pecynnau meddalwedd safonol, technegau delweddu data a chrynhoi golygon data, bydd myfyrwyr yn dysgu sut i archwilio casgliadau data er mwyn ateb cwestiynau am y byd a datblygu gwerthfawrogiad o anghenion defnyddwyr ynghylch systemau data.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd berthnasol neu brofiad cyfatebol ym maes gweithio gyda data a/neu reoli data
- cefndir mewn maes damcaniaethol a/neu reoli sy'n sail i ddealltwriaeth o amrywiaeth o dechnolegau a thechnegau rheoli a dadansoddi data megis cronfeydd data perthynol a chronfeydd data NoSQL, yn enwedig MongoDB, mapreduce, a thechnegau delweddu data, a enillwyd naill ai drwy brofiad academaidd neu drwy brofiad ymarferol
- *naill ai'r* gallu i raglennu gan ddefnyddio iaith raglennu Python *neu'r* gallu i raglennu gan ddefnyddio iaith raglennu orchmynnol arall neu iaith a ddefnyddir ar gyfer archwilio a dadansoddi data, megis R, a bod yn barod i ddysgu Python
- bod yn gyfarwydd â'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n ymwneud â chasglu, rheoli a dadansoddi data
- y gallu i gefnogi myfyrwyr gydag agweddau ymarferol y modiwl, gan gynnwys defnyddio peiriannau rhithwir ac ysgrifennu cod Python er mwyn dadansoddi setiau data nas gwelwyd o'r blaen
- bod yn frwdfrydig ac yn wybodus am wyddor data fel sgil allweddol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

*Gwybodaeth ychwanegol*

- Yn ogystal â marcio dau aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) ac asesiad diwedd modiwl (EMA), sy'n seiliedig i raddau helaeth ar adroddiad, bydd angen i chi hefyd fonitro ymgysylltiad myfyrwyr â sawl aseiniad rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMAs) ac ymateb i ymholiadau myfyrwyr ynglŷn â'r iCMAs.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5